



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h. nos Fercher, 20^{fed} o Ionawr 2016

Presennol.

*C G Topps, (Cad), M T Smithurst, K Woods, JH Williams,
R B Owen, R Hussey, W Hughes, Cyng P Rogers, Cyng A Griffith*

Ymddiheuriadau.

R F Owen, D Nash, R Stallwood, A Gilmour

1. Cofnodion

Cafodd Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 18/11/2015 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r Agenda. **MTS** yn cynnig, eilwyd gan JHW.

2. Materion yn codi

- Lleoliad ar gyfer offer achub bywyd

Dim cyswllt pellach gan Mr Neil Bell, swyddog Morwrol. Clerc i wneud ymholiadau.

- Llwybr yn arwain o Borth Trecastell tuag at Farcloidiad y Gawres

Dim gwybodaeth bellach.

- Datblygu Gwefan

RS ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

- Meinciau – Ward Llangwyfan.

I'w gosod.

- Mynediad at Ynys Meibion

I'w drafod eto.

- Pont Ganol Aberffraw – Linteli Cerrig

Dim ymateb gan Adran Lwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir.

- Neuadd Glannau Ffraw

Adroddwyd y byddai'r gwaith o osod sistem wresogi newydd yn dechrau unwaith y bydd yr arian wedi ei drosglwyddo. KW yn adrodd ei fod wedi ei alw i gyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Neuadd ynghyd a RBO. Aelodau o'r cyhoedd hefyd yn bresennol yn cwstyfnu'r penderfyniadau a waned gan y Cyngor Cymuned mewn perthynas â'r Gronfa Lles Cymunedol. KW yn adrodd ei fod wedi cynghori unrhyw un oedd a chwestiwn i gysylltu â'r Cyngor Cymuned yn ffurfiol. KW yn adrodd fod C Hallsworth (Trysorydd y Neuadd) wedi gwneud cais i'r Cyngor Cymuned ofyn a fyddai Ystâd Bodorgan yn ystyried rhoi cyfran ychwanegol o'r cyllid i dalu am ddrws a ffenestri newydd a osodwyd yn 2014. Cytunwyd y dylai'r Clerc wneud ymholiadau gyda Mr Tim Bowie. RH yn holi ynglŷn â gweddill yr arian. KW yn egluro fod angen gwelliannau eraill megis gosod goleuni LED effeithlon. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gael gweld copi o gyfrifon diwethaf y Neuadd- RBO i wneud cais am gopi.

- Ysgol Gynradd Aberffraw

Cafwyd adroddiadau fod y safle wedi ei werthu.

- CNC – Tywyn Aberffraw

Dim gwybodaeth bellach gan Mr John Ratcliffe

- Llys Llewelyn

Deallir bellach nad yw'r safle wedi ei werthu.

- Croesffordd Dothan

KW yn adrodd ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda Choleg Menai a'i fod wedi ei hysbysu y byddent yn ystyried gwneud y gwaith fel rhan o brosiect yn ystod y flwyddyn nesaf. JHW yn adrodd fod yr arwyddbost ar gyffordd Capel Dothan wedi ei niweidio gan y gwynt ac wedi ei dynnu oddi yno.

- Safle eistedd ar "Bîg Trwyn"

Swm o £1450.00 wedi ei gasglu er cof am Isaac Nash wedi ei ddefnyddio tuag at y gost o drin y safle eistedd - cyfanswm cost o £1608.00. Mewn perthynas â'r posibilrwydd o osod plât coffa ar y fainc. Cytunwyd na fyddai'n addas i'r Cyngor Cymuned symud ymlaen heb yn gyntaf dderbyn cais gan y teuluoedd perthnasol. Y Cyngor Cymuned yn gwbl agored i awgrymiadau gan y teuluoedd.

- **Stryd Bangor - Parcio**
Y Cyngor Sir i gyflwyno gwaharddiadau parcio.
 - **Goleuni Stryd**
Clerc wedi ei hysbysu fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi gosod goleuni cryfach a'u bod wedi newid ongl y lamp. Pryderon fodd bynnag fod y llwybr troed yn parhau i fod yn dywyll. Cyng. A Griffiths i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.
 - **Lon Trefri**
CGT i drafod gyda Mr Tim Bowie, Ystâd Bodorgan.
 - **Trac Môn - RS** ddim yn bresennol i adrodd yn ôl. Cyng. A Griffiths yn adrodd ei bod wedi cael trafodaeth gyda Mr Richard Peacock ynglyn a'r posibilrwydd o gynnig hyfforddiant sgid i bobl ifanc ardal Aberffraw. Mr Peacock yn gefnogol i'r syniad. Y cynnig i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y fforwm cyswllt.
 - **Lonydd – Ardaloedd Dothan / Soar**
Clerc wedi ei hysbysu gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn y bydd y Gang Gymunedol yn trin y lonydd yn y dyfodol agos.
 - **Fflatiau Maes Llewelyn** - Cyng. P Rogers yn adrodd fod 5 ffenest 5 windows were currently boarded up and that the general condition of the flats and the surrounding area remains a concern. Clerc i wahodd cynrychiolydd o Adran Dai'r Cyngor Sir i fynychu cyfarfod i drafod y problemau.
 - **Eisteddfod Genedlaethol 2017** - Clerc yn adrodd nad oedd unrhyw un wedi mynychu'r cyfarfod a drefnwyd gan Bwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Ysgol Bodorgan ar 23/11/2015. Cytunwyd y byddai Cyngor Cymuned yn cyfrannu £600 tuag at yr Eisteddfod. Cynigwyd gan MTS cytunwyd gan bawb.
- 3. Y Gyllideb a Phriseb ar gyfer 2016-2017**
Copïau o'r Gyllideb Ddrafft wedi ei rhannu i bawb a oes yn bresennol. Y Cyngor Cymuned yn ystyried argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Cynigwyd gan MTS ac eiliwyd gan RH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn mabwysiadu'r argymhelliad cyntaf yn unig "I sicrhau y gellid cwrdd ag o leiaf cyfran o'r costau sy'n ymwneud â chynrychioli'r gymuned - hyd at £100 y flwyddyn". Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan KW fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r Gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2016/17. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan WH y dylid gadael y Priseb ar y lefel bresennol o £7000 y flwyddyn. RH yn datgan fod Priseb Aberffraw yn gymharol isel o'i gymharu â chymunedau eraill ar yr ynys.
- 4. Ceisiadau Cynllunio**
Cais i ehangu'r parc solar yn Nhy'n Dryfol wedi ei gymeradwyo. Cyng. A Griffiths fod cyfyngiadau mwy llym wedi eu gosod mewn perthynas â gwrychoedd ac ochrau'r ffyrdd.
- 5. Meysydd Parcio'r Traethau**
CGT yn gobeithio cyfarfod gyda Mr Tim Bowie, Ystâd Bodorgan cyn cyfarfod mis Chwefror. Pryderon ynglŷn â'r diffyg safleoedd parcio ar gyfer y niferoedd cynyddol o ymwelwyr a'r traeth a'r tywyn. Awgrymwyd y dylid ehangu'r ardal barcio wrth yr hen bont.
- 6. Gohebiaeth**
- Rhun ap Iorwerth – Cylchlythyr
 - Un Llais Cymru - gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant
 - Ystâd Bodorgan - Llythyr ynglŷn â chwyn a dderbyniwyd gan Adran Lwybrau'r Cyngor Sir ynglŷn â chilbost ansefydlog ar lwybr yn arwain drwy'r rhandiroedd. MTS yn adrodd fod y cilbost ar ei randir ef ei hun. Mae'n eglur fod y cilbost wedi ei niweidio yn y broses o osod giât newydd. Clerc i wneud ymholiadau gyda Mr Arwel Evans ynglŷn â phwy osododd y giât newydd.
 - Cyngor Sir Ynys Môn - gwybodaeth ynglŷn â newid cyfeiriad llwybr cyhoeddus ger Borth Trecastell. Neb yn gwrthwynebu.
 - Cyngor Sir Ynys Môn - "Ymgynghoriad ar ffordd newydd o osod Cartrefi Cymdeithasol ar Ynys Môn"
 - Un Llais Cymru - Gwybodaeth ynglŷn â choelcerthi dathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed.
 - Heddlu Gogledd Cymru – Gwarchod y Gymuned – cais am fanylion cyswllt Cynghorwyr Cymuned.

7. UFA

- Yr Iaith Gymraeg- Cyng. Ann Griffiths yn mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg defnydd o'r iaith Gymraeg yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Cyng. Griffiths yn gofyn i'r Cyngor Cymuned un ai drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd neu gytuno i adael i unigolion siarad ym mha bynnag iaith y dymunant. Cyng. Griffiths yn adrodd ei bod yn arbennig o bryderus gan fod unigolyn wedi dweud wrthi beidio â siarad Cymraeg mewn cyfarfod blaenorol.. CGT yn egluro fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol o'r iaith Gymraeg. Cytunwyd ei bod yn gwbl dderbyniol i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg yn ystod y cyfarfodydd.
- Llinellau Ffôn - Cyng. A Griffiths yn mynegi pryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd rhai ffonau yn ardal Aberffraw wedi gweithio ers 26/12/2016. KW yn adrodd fod y blwch cyfnewidfa wedi ei leoli yn y pentref angen ei ddiweddarau. Cyng. Griffiths yn adrodd ei bod wedi ei hysbysu gan BT y byddent yn rhoi blaenoriaeth i unigolion bregus.
- Rhandiroedd - KW yn adrodd fod aelod o'r cyhoedd wedi mynegi pryder ynglŷn â chyflwr rhai o'r rhandiroedd. Adroddwyd fod bels wedi eu gadael i ddirywiwio ac adeiladau wedi eu gadael mewn cyflwr blêr. Clerc i baratoi cylchlythyr ar gyfer y tenantiaid.
- Llifogydd - Adroddiadau o lifogydd yn ardal Bragdy tuag at Glan yr Afon. Deallir fod dwr wedi bod yn gorlifo o draen yn yr ardal. Cyng. A Griffiths i gysylltu ag Adran Briffyrdd y Cyngor Sir. Cyng. Griffiths yn adrodd fod Rhun ap Iorwerth AC yn edrych ar yr holl achosion o lifogydd ar yr ynys.
- Prosiect 14– Digwyddiad i'w gynnal yn Neuadd Glannau Ffraw a Llys Llewelyn ar 28^{ain} o Ionawr o 5:00 – 9:00 yh.
- Aberffraw mewn Blodau – Costau i'w had-dalu i CGT a RS.

8. Cyllid

Taliadau:	27/11/2015	Ystâd Bodorgan	Rhenti	£ 3844.00
	14/12/2015	MGCS	Torri glaswellt	£ 160.00
	20/01/2016	Grants Engineering	Sustem Wresogi	£14075.92
Derbyniadau	25/11/2015	J H Owens	Lotri'r Fynwent	£ 400.00
	07/12/2015	Melyin Rowlands	Y fynwent	£ 45.00
	16/12/2015	Amrywiol	Rhenti	£ 5017.50
	23/12/2015	Preswylfa Cyf	Y fynwent	£ 60.00
	20/01/2016	Ystâd Bodorgan	Taliad Lles y Gymuned	£14075.92

9. <u>Lotri - L12</u>	1 ^{af} Rhif 1	Cyng. P Rogers	£25.00
	2 ^{il} Rhif 140	C G Topps	£10.00
<u>Lotri - L01</u>	1 ^{af} Rhif 39	J H Williams	£25.00
	2 ^{il} Rhif 84	Mr Anne Pollitt	£10.00



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh. ar nos Fercher 17^{fed} o Chwefror 2016

Presennol.

*C G Topps, (Cadeirydd), M T Smithurst, K Woods, JH Williams, R B Owen,
R Hussey, W Hughes, R Stallwood, A Gilmour, R F Owen, Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau.

D Nash,

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Cyng. R F Owen i'r cyfarfod yn dilyn ei absenoldeb o ganlyniad i ddamwain.

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20/01/2016 u derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r Agenda. MTS yn cynnig, eiliwyd gan KW.

2. Materion yn codi

- Lleoliad arfaethedig ar gyfer offer achub bywyd
Dim ymateb pellach gan Neil Bell, Swyddog Morwrol. Clerc i wneud ymholiadau.
- Datblygu Gwefan
Clerc i gysylltu ag Anglesey Computer Solutions. RS yn adrodd ei fod wedi sicrhau'r enw aberffraw.cymru ar gyfer y Cyngor Cymuned.
- Meinciau – Ward Llangwyfan.
I'w gosod.
- Mynediad at Ynys Meibion
Clerc wedi ei hysbysu gan Mr Tim Bowie, Ystâd Bodorgan, fod y llwybr sydd yn arwain at Ynys Meibion wedi ei glirio.
- Pont Ganol Aberffraw – Linteli cerrig
Dim ymateb gan yr Adran Lwybrau.
- Neuadd Glannau Ffraw
Adroddwyd fod y gwaith o osod sistem wresogi newydd wedi dechrau a disgwylir y bydd yn barod ar gyfer archwiliad RHI ddechrau'r wythnos nesaf. Clerc yn adrodd fod Ystâd Bodorgan wedi cytuno i ryddhau cyfran bellach o'r gronfa i ad-dalu'r gost o osod drws a ffenestri newydd ym 2014. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o Ystâd Bodorgan / New Forest Energy i gyflwyno'r siec. RBO yn adrodd y bwriedir gwario cyfran arall o'r cyllid ar doiledau anabl a chyfleusterau newid babanod. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gael gweld copi o gyfrifon diwethaf y Neuadd- RBO i wneud cais am gopi.
- Ysgol Gynradd Aberffraw
Cafwyd adroddiadau fod y safle wedi ei werthu. Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.
- Llys Llewelyn
Deallir bellach nad yw'r safle wedi ei werthu. Y caffi i gau am gyfnod ar gyfer gwaith adnewyddu.
- Croesfordd Dothan - arwyddbost
KW i wneud ymholiadau pellach gyda Choleg Menai.
- Goleuni Stryd
Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda Chyngor Sir Ynys Môn.
- Lon Trefri
Ystâd Bodorgan yn cydnabod fod parcio ar ochr y lon yn broblem ac yn awyddus i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned i'w datrys.
- Ffyrdd – Ardal Dothan / Soar
Pryderon ynglŷn â chyflwr ffyrdd lleol yn gyffredinol. Clerc i wahodd cynrychiolydd o'r Adran Briffyrdd i fynychu cyfarfod yn y dyfodol.
- Fflatiau Maes Llewelyn- O ganlyniad i waith Cyng. Peter Rogers, erthygl wedi ei chyhoeddi yn yr Holyhead and Anglesey Mail ar 17/02/2016 yn tynnu sylw at gyflwr Fflatiau Maes Llewelyn. Cytunwyd y dylai'r Clerc estyn gwahoddiad i Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr i'r cyfarfod nesaf. Clerc i nodi fod trigolion sydd yn byw yn agos i'r

fflatiau yn ystyried gwneud cais i gael ail-fandio eu cartrefi mewn perthynas â threth y cyngor i adlewyrchu effaith negyddol y fflatiau ar eu heiddo.

- Aberffraw mewn Blodau - Costau mewn perthynas ag Aberffraw mewn Blodau i'w had-dalu i CGT and RS. Clerc i wneud cais am gyfraniad o £400 gan Drac Môn. £25 i'w ad-dalu i CGT mewn perthynas â thorch ar gyfer Sul y Cofio.
- Meysydd Parcio'r Traethau - Clerc wedi ei hysbysu gan Mr Tim Bowie fod Ystâd Bodorgan yn ystyried gwella'r meysydd parcio ym Mhorth Trecastell, Porth Nobla ac Aberffraw (Hen Bont) gyda'r bwriad o godi tal am barcio. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu codi am barcio ger yr Hen Bont oherwydd effaith negyddol ar y pentref.
- Cilbost wedi ei niweidio (Rhandiroedd) - Y cilbost wedi ei niweidio yn y broses o osod giât newydd. Clerc wedi ei hysbysu gan Mr Arwel Evans, Adran Lwybrau Cyngor Sir Ynys Môn, fod y giât newydd wedi ei gosod gan y Cyngor Sir. MTS i drwsio'r cilbost.

3. Ceisiadau Cynllunio

3.1 Cais ar gyfer adeiladu toiledau, cawodydd a chyfleusterau newid ar safle Trac Môn. Dim sylwadau.

3.2 101 Glan y Môr (Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi cais i godi annedd). Cyng. G C Topps yn datgan diddordeb gan ei fod yn berchen ar yr eiddo sy'n terfynu. Pryderon ynglŷn â'r ffaith fod y lleoliad a nodir ar y cynllun fel man parcio yn llanwol ac felly yn anaddas. Clerc i fynegi pryderon i Adran Gynllunio Cyngor Sir Ynys Môn.

4. Gohebiaeth

- Cyngor Sir Ynys Môn- Ymgynghoriad ynglŷn ag opsiynau ar gyfer safleoedd teithwyr a sipsiwn ar yr ynys
- Rhun ap Iorwerth – Cylchlythyr
- Un Llais Cymru- gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant
- Un Llais Cymru- Llythyr yn gwahodd y Cyngor Cymuned i adnewyddu tanysgrifiad i Un Llais Cymru ar gyfer 2016-17 am gost o £100. Cynigwyd gan MTS fod y Cyngor Cymuned yn adnewyddu'r tanysgrifiad. Eiliwyd gan KW.
- Porth Lleidiog - e-bost gan Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â llifogydd ger Borth Lleidiog yn niweidio llwybr yr arfordir. Cytunwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu unrhyw waith atgyweirio gan y Cyngor Sir.

5. UFA

- Y Fynwent– MTS yn adrodd fod y Cyngor Cymuned wedi cael cyfle yn y gorffennol i ehangu'r fynwent drwy brynu tir ar y terfyn am gost o £1500. Clerc i chwilio drwy'r cofnodion a holi Mr J H Owens.

6. Cyllid

Taliadau: 21/01/2016 Menna Evans (Clerc) Cyflog Hyd-Rhag 2015 £ 666.96

Derbyniadau:

- | | | | | |
|-----------------------|-----------------|----|---------------------|--------|
| 7. <u>Lotri - L02</u> | 1 ^{af} | 70 | Huw Owen, Trefri | £25.00 |
| | 2 ^{il} | 22 | Mrs Christine Parry | £10.00 |



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh ar nos Fercher yr 16eg o Fawrth 2016

Presennol.

C G Topps, (Cad), J H Williams, K Woods, R Hussey, W Hughes, A Gilmour, R F Owen, Cyng A Griffith

Ymddiheuriadau.

D Nash, M T Smithurst, R B Owen, R Stallwood

Cyngor Sir Ynys Môn - Adran Dai

Estynnodd CGT groeso i Shan Williams a Karen Roberts i'r cyfarfod. Ymddiheurodd Mrs Roberts ar ran Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) ac eglurodd nad oedd yn gallu bod yn bresennol gan ei fod yn cymryd rhan mewn digwyddiad yn ymwneud a'r ymgynghoriad Gwasanaeth Llyfrgell. Gofynnwyd i Mrs Williams a Mrs Roberts roi sylwadau ar faterion sydd yn destun pryder:

- Ffens Min y Môr - Mrs Roberts yn adrodd fod y ffens wedi ei chodi yn dilyn ymgynghoriad gyda'r tenantiaid oedd yn pryderu fod pobl yn defnyddio cefn y tai fel llwybr troed. Mrs Williams yn adrodd eu bod yn bwriadu gosod giât o dan glo yn y ffens.
- Tenantiaid yn gadael eiddo mewn cyflwr gwael - Mrs Roberts yn egluro y disgwylir i denantiaid sydd yn gadael eiddo mewn cyflwr gwael dalu am unrhyw waith sydd angen i ddod ar eiddo i fyny i safon dderbyniol. Mewn perthynas â phryderon ynglŷn â rhai cartrefi yn y pentref, Mrs Roberts yn adrodd fod yr awdurdod yn cydweithio gyda'r tenant i wella'r sefyllfa.
- Eiddo'r Awdurdod yn cael eu gosod i denantiaid oddi allan i'r ardal leol. Mrs Williams yn egluro fod yr awdurdod wedi cael trafferthion dod o hud i denantiaid lleol ar gyfer rhai cartrefi yn Aberffraw yn arbennig felly'r fflatiau ym Maes Llewelyn. O ganlyniad, cynigir rhai cartrefi i unigolion sydd yn fyw oddi allan i ffiniau'r ardal.
- Ymddygiad anghymdeithasol ym Maes Llewelyn- pryderon ynglŷn ag ymddygiad treisgar rhai o'r tenantiaid a'r broblem barhaus o ddefnyddio cyffuriau. Mrs Roberts yn adrodd fod swyddogion y Cyngor wedi derbyn pwerau ychwanegol yn ddiweddar a'u bod erbyn hyn yn gallu codi dirwy. Diffyg tystion yn parhau i fod yn broblem. Deellir fod unigolion ofn adrodd am ddigwyddiadau i'r Heddlu gan eu bod yn pryderu y bydd y troseddwr yn dial arnynt. Mrs Roberts yn cynghori pobl i ffonio'r Cyngor Sir a dweud eu bod am aros yn ddiennw neu gysylltu â Crimestoppers. Yr Adran Dai wedi gwneud cais i gael gosod camerâu cylch cyfyng yn yr ardal.
- Gadael Sbwriel - Ymddengys fod nifer yn gadael sbwriel ar y llwybr y tu ôl i'r fflatiau. Mrs Roberts yn cynnig diwrnod glanhau cymunedol gyda'r bwriad o gydweithio rhwng aelodau'r gymuned a'r Adran Reoli Gwastraff.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Williams a Mrs Roberts am fynychu.

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17/02/2016 eu derbyn yn gywir ar sail yr Adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r Agenda. WH yn cynnig, eiliwyd gan AG.

2. Materion yn Codi

3. Lleoliad arfaethedig ar gyfer offer achub bywyd

Dim ymateb pellach gan Neil Bell, Swyddog Morwrol. Clerc i wneud ymholiadau.

• Datblygu Gwefan

Clerc wedi ei hysbysu gan Anglesey Computer Solutions y byddai cynllunio'r wefan yn costio £350 gyda £10 yn daladwy y mis ar gyfer rheoli'r safle, i'w dalu flwyddyn ymlaen llaw. Cytunwyd y dylid gofyn i Anglesey Computer Solutions fwrw ymlaen â'r gwaith.

• Meinciau - Ward Llangwyfan.

I'w gosod.

• Mynediad at Ynys Meibion

Clerc wedi ei hysbysu gan Mr Tim Bowie, Ystâd Bodorgan, fod y llwybr sy'n arwain tuag at Ynys Meibion wedi ei dorri. CGT i drafod gyda Mr Bowie.

- **Pont Ganol Aberffraw – Linteli Cerrig**
Dim ymateb gan yr Adran Lwybrau.
- **Neuadd Glannau Ffraw**
KW yn adrodd fod y sustem wresogi newydd wedi ei gosod ac yn gweithio. Gwaith i'w wneud ar do'r adeilad a'r cyfleusterau toiled. KW yn adrodd ei fod wedi cysylltu â chwmni Jewson ynglŷn â chynllun i gynorthwyo prosiectau cymunedol.
- **Ysgol Gynradd Aberffraw**
Clerc wedi derbyn cadarnhad fod yr adeilad wedi ei werthu yn amodol ar arwyddo cytundebau.
- **Llys Llewelyn**
Caffi Llys Llewelyn wedi ei gau ar hyn o bryd ar gyfer gwelliannau.
- **Croesffordd Dothan - Arwyddbost**
Dim ymateb pellach gan Goleg Menai.
- **Goleuni Stryd**
Clerc wedi ei hysbysu gan Eryl Davies (Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn) fod tri o'r goleuadau wedi eu newid ac ongl un o'r lampau wedi ei newid. Ymddengys fod y sefyllfa wedi gwella.
- **Lon Trefri**
Ystâd Bodorgan yn cydnabod fod problem gyda cheir yn parcio ar ochr y ffordd ac yn awyddus i weithio gyda'r Cyngor Cymuned i ddatrys y broblem. CGT i drafod gyda Mr Tim Bowie.
- **Ffyrdd – Ardal Dothan / Soar**
Pryderon yn parhau ynglŷn â chyflwr y ffyrdd lleol yn gyffredinol. JHW yn mynegi pryderon ynglŷn mwd ar y ffordd sy'n arwain o Soar tuag at Aberffraw. Clerc i wahodd cynrychiolwyr o'r Adran Briffyrdd i gyfarfod yn y dyfodol.
- **Aberffraw mewn Blodau-** Rhodd o £400 wedi ei dderbyn gan Drac Môn. £25 i'w ad-dalu i CGT mewn perthynas â thorch pabi ar gyfer Sul y Cofio.
- **Meysydd Parcio'r Traethau** - CGT i gyfarfod gyda Tim Bowie, Ystâd Bodorgan.
- **Y Fynwent** – Prynu tir i ehangu'r fynwent. Clerc yn adrodd ei bod wedi methu a dod o hyd i unrhyw gyfeiriad at dir ychwanegol yn y cofnodion. Gwahoddwyd Mr John H Owens i siarad ac adroddodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gynnig a wnaed i'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â phrynu tir ychwanegol.

4. **Ceisiadau Cynllunio**

4.1 Cais ar gyfer adeiladu toiledau, cawodydd a chyfleusterau newid ar safle Trac Môn – CAIS WEDI EI GYMERADWYO.

5. **Gohebiaeth**

- Ystad Bodorgan– Trwydded ar gyfer y Safle Picnic. Wedi ei arwyddo gan CGT.
- Ynys Mon / Gwynedd Uned Bolisi Cynllunio ar y cyd– Cynllun Adnau. Wedi ei basio i KW.
- Cyngor Sir Ynys Môn - Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned i'w gynnal ar nos Iau 28ain Ebrill am 7:00 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor , Llangefni.
- Un Llais Cymru - gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant

6. **UFA**

- Plant mewn gofal ar Ynys Môn- Cyng. Ann Griffith yn adrodd fod 116 o blant mewn gofal ar Ynys Môn ar hyn o bryd, cynnydd sylweddol o'r 78 a oedd dan ofal yr awdurdod ym Mawrth 2015. Cyng. Griffiths yn adrodd mai'r prif reswm dros ddod â phlant i mewn i ofal yw cam-drin. Angen mawr am ofalwyr maeth ar yr ynys.
- Cychod - WH yn datgan pryderon ynglŷn â nifer o gychod wedi eu gadael yn dirywio yn yr aber. Clerc i gysylltu â'r Swyddog Morwrol.
- Porth Lleidiog – Arwel Evans (Llwybrau Cyngor Sir Ynys Môn) wedi cysylltu ag Ystad Bodorgan Estate mewn perthynas â rhan o'r llwybr arfordirol sydd yn arwain o gwmpas y penrhyn. Deellir fod y coed sydd yn ffurfio rhan o'r llwybr wedi dirywio. Cyngor Sir Ynys Môn yn awyddus i atgyweirio'r llwybr yn defnyddio cerrig yn lle coed. Dim gwrthwynebiad.
- Datblygiad Parc Solar - Cyng. Ann Griffiths yn adrodd ei bod wedi cyfarfod â Mr Tim Bowie, Ystad Bodorgan i drafod pryderon trigolion Soar mewn perthynas â'r cais diweddar ym Mryn yr Odyn a

gymeradwywyd gan Gyngor Sir Ynys Mon. Cyng. Griffiths wedi ei hysbysu gan Mr Bowie nad oedd yn debygol y byddai'r datblygiad yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

7. Cyllid

Taliadau:

16/03/2016 C G Topps (Cad)	Aberffraw mewn blodau (Blodau ar gyfer 2015)	£ 100.00
16/03/2016 C G Topps (Cad)	Torch – Sul y Cofio	£ 25.00

Derbyniadau:

16/03/2016 Trac Mon	Aberffraw mewn blodau – rhodd	£ 400.00
---------------------	-------------------------------	----------

8. Lotri - L03

1 ^{af} 70	Huw Owen, Trefri	£25.00
2 ^{il} 36	Mr Paul Hobbs	£10.00



Adroddiad ar Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h. ar nos Fercher 20fed o Ebrill 2016

Presennol: C G Topps, (Cad), J H Williams, R Hussey, W Hughes, A Gilmour, R Stallwood,
R F Owen, M T Smithurst, R B Owen,

Ymddiheuriadau. D Nash, K Woods, Cyng A Griffith

Mr Neil Summers - Anglesey Computer Solutions

Mr Summers yn egluro ei fod wedi cynllunio gwefannau ar gyfer nifer o gynghorau cymuned gan gynnwys y categorïau canlynol:

- Hanes
- Cynghorwyr
- Cofnodion
- Rhaglenni
- Cyllid

Byddai ail-gynllunio'r wefan yn costio £50.00 gyda £10.00 yn daladwy ar gyfer cynnal a chadw a diweddarau gwybodaeth. Cytunwyd y dylai Mr Summers fwrw ymlaen â'r gwaith. RS i drosglwyddo enwau defnyddwyr a chyfrineiriau i Mr Summers.

Clerc i ddarparu ad-daliad i Mr Stallwood o'r costau mewn perthynas â sefydlu'r wefan.

1. Cofnodion

Cafwyd cofnodion yn cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16/03/2016 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddisbarthwyd gyda'r Rhaglen. AG yn cynnig, eiliwyd gan WH.

2. Materion yn codi

- Min y Môr
Adroddwyd fod y ffens wedi ei thynnu i lawr.
- Lleoliad ar gyfer offer achub bywyd
CGT i gyfarfod â Mr Neil Bell, Swyddog Morwrol ar ddydd Gwener am 10:00 y.b i drafod lleoliad yr offer achub bywyd a'r cychod sydd wedi eu gadael yn yr aber.
- Meinciau – Ward Llangwyfan.
Cytunwyd y dylid gofyn i Mr HR Hughes osod y meinciau. WH i drafod gyda Mr H R Hughes.
- Mynediad at Ynys Meibion
Adroddwyd fod mynediad ar gyfer pysgotwyr.
- Pont Ganol Aberffraw – Stone Lintels
Dim ymateb o'r Adran Lwybrau Cyhoeddus.
- Neuadd Glannau Ffraw
Y sustem wresogi newydd yn gweithio. Pryderon ynglŷn â dull o reoli'r gwres yn yr ystafell pwyllgor ar wahân i'r brif neuadd. RBO yn adrodd fod y Trysorydd wedi ymddiswyddo gan adael 6 aelod ar y pwyllgor. RBO yn adrodd fod y cyfrifon wedi eu cadw'n unol â'r gofynion.
- Ysgol Gynradd Aberffraw
Adroddwyd fod gwaith wedi dechrau ar yr adeilad. Pryderon fod y gwaith wedi ei ddechrau heb ganiatâd cynllunio. Clerc i holi'r Adran Gynllunio.
- Llys Llewelyn
Caffi Llys Llewelyn wedi cau ar gyfer gwaith trin. Y gwaith i'w ddechrau ym mis Mai.
- Croesfordd Dothan - Arwyddbost
Dim ymateb pellach gan Goleg Menai. KW ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

- **Goleuni Stryd**
Goleuni ger Neuadd Glannau Ffraw wedi gwella. AG yn adrodd fod rhai lampau ym Maes Llewelyn ymlaen yn barhaol. Gofynnir i aelodau sydd â phryderon ynglŷn â lampau penodol gysylltu â'r Clerc gyda rhif adnabod y lamp.
- **Lon Trefri** - CGT i drafod gyda Mr Tim Bowie.
- **Aberffraw mewn Blodau** -RS a CGT i weithio ar y prosiect gydag aelodau o'r gymuned. Gobeithir y bydd y trigolion sydd yn byw wrth ymyl y cafnau blodau yn cymryd cyfrifoldeb am eu dyfrio. Cyfanswm o £400 ar gael. Clerc i anfon ad-daliad i Mr Richard Stallwood am gostau 2015. RS i roi gwybod i'r Clerc ynglŷn â'r cyfanswm sydd yn ddyledus.
- **Meysydd Parcio'r Traethau** - CGT i gyfarfod â Mr Tim Bowie, Ystâd Bodorgan. Cynigwyd gan RH a chytunodd bawb y byddai Cyngor Cymuned Aberffraw yn gwrthwynebu codi tâl am barcio ond yn cefnogi cyflwyno cyfyngiadau ar uchder cerbydau.
- **Y Fynwent** -Clerc wedi methu a dod o hyd i unrhyw gyfeiriad at dir ychwanegol yn y cofnodion. Mr John H Owens ddim yn ymwybodol o unrhyw gynnig o dir ychwanegol i'r Cyngor Cymuned. MTS yn adrodd fod y cynnig wedi ei wneud yn 2006 - 2007. Clerc i ail edrych drwy'r cofnodion.

3. **Ceisiadau Cynllunio** Dim.

4. **Gohebiaeth**

- BDA - Gwybodaeth ynglŷn ag archwiliad allanol 2015/16
- Grin Cenedlaethol – Diweddariad Cymunedol
- Un Llais Cymru - Gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant
- Medrwn Môn - Gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant ABCD
- Un Llais Cymru – Rheoliadau Cyllid
- Zurich Insurance – Amcanbris ar gyfer 2016/2017 yn £938.06 (codiad o £46.20 o gyfanswm y llynedd). Clerc i wneud ymholiadau gyda gydag Yswiriant AON.

5. **UFA**

- Dr Medwyn Williams – Clerc i anfon cerdyn yn dymuno'n dda i Dr Medwyn ar ei ymddeoliad yn dilyn dros 30 o wasanaeth i'r gymuned.
- Llifogydd- Cafwyd fod adroddiadau fod y broblem o ddŵr budr yn gorlifo o'r draen ger Bragdy yn parhau. Clerc i wneud ymholiadau gyda Cyng. Ann Griffiths mewn perthynas â'r archwiliad gyda camera. Clerc i gysylltu â Dŵr Cymru.
- AG yn adrodd ei fod wedi ymweld â'r cae chwarae yn dilyn cais am feinciau i eistedd a chadarnhaodd fod bwrdd picnic eisoes ar y safle ger yr offer chwarae. Pryderon ynglŷn â thwrch daear. Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

6. **Cyllid**

Taliadau:

31/03/2016 M Evans(Clerc) Cyflog – Ion– Mawrth 2016 £ 666.96

Derbyniadau:

05/04/2016 Cyngor Sir Ynys Môn Llwybrau Cyhoeddus £ 420.00

7. **Lotri - L04**
- | | | |
|---------|----------------------|--------|
| 1af 30 | H Mc Gilvary, Valley | £25.00 |
| 2il 115 | Mrs Hilda Thomas | £10.00 |



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a Gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh ar nos Fercher y 18^{fed} o Fai 2016

Presennol. *K Woods (Cadeirydd), J H Williams, D Nash, W Hughes, A Gilmour, R Stallwood, R F Owen*

Ymddiheuriadau. *C G Topps, M T Smithurst, R Hussey, R B Owen, Cyng A Griffith*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20/04/2016 eu derbyn ar sail yr Adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. AG yn cynnig, eilwyd gan WH / RS.

2. Materion yn Codi

- Gwefan – Mr Summers yn gweithio ar y safle. RS yn adrodd ei fod wedi cyflenwi yr enwau defnyddiwr a'r cyfrineiriau.
- Lleoliad arfaethedig ar gyfer offer achub bywyd
CGT i adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.
- Meinciau – Ward Llangwyfan.
Mr HR Hughes angen gwybodaeth ynglyn a'r lleoliad ar gyfer y meinciau cyn paratoi amcanbris. RFO i drefnu cyfarfod a Mr Hughes. Clerc i wneud ymholiadau gydag Ystad Bodorgan mewn perthynas a chaniatad a o bosib, cytundeb.
- Mynediad at Ynys Meibion
WH yn adrodd fod nad yw'r staff sydd yn goruchwyllo mynediad i'r Tracy n ymwybodol o'r trefniant i adael mynediad i bysgotwyr. RS a KW i drafod yng nghyfarfod nesaf y grwp cyswllt. Anfon llythyr os nad yw hyn yn datrus y broblem.
- Pont Ganol Aberffraw – Linteli Cerrig
Dim ymateb gan yr Adran Lwybrau.
- Neuadd Glannau Ffraw
Sustem wresogi yn gweithio'n dda gyda rheolaeth ar wahan ar gyfer yr Ystafell Bwyllgor. KW yn adrodd fod y sustem yn effeithlon iawn ac yn prhau i redeg ar y tanwydd a gyflenwyd gyda'r boiler. Angen drws tan ar gyfer ystafell y boiler.
- Ysgol Gynradd Aberffraw
Clerc wedi ei hysbysu gan yr Adran Gynllunio nad oes angen caniatad "newid defnydd" os yw'r defnydd yn parhau i fod yn y maes addysg neu hyfforddiant.
- Llys Llewelyn
Dim adroddiadau fod y gwaith trin wedi dechrau.
- Croesffordd Dothan– Arwyddbost
Dim ymateb gan Goleg Menai. JHW yn adrodd fod y blwch ffon angen ei ail-baentio. JHW i gwblhau'r gwaith yn wirfoddol gyda chymorth gan Mr K Hazelaar.
- Goleuni Stryd
AG yn adrodd fod peirianwyr wedi gweithio ar y goleuadau ym Maes Llewelyn.
- Lon Trefri – CGT i adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.
- Aberffraw mewn Blodau – RS i roi gwybod i'r Clerc ynglyn a'r costau mewn perthynas ag Aberffraw mewn Blodau 2015 a sefydlu gwefan Cyngor Cymuned Aberffraw.
- Meysydd Parcio'r Traethau – CGT i adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf yn dilyn trafodaeth gyda Mr Tim Bowie.
- Y Fynwent – Clerc yn adrodd ei bod wedi dod o hyd i un cyfeiriad ynglyn a'r Cyngor Cymuned yn anfon llythyr at y Cyngor Sir mewn perthynas a'r tir ychwanegol. Clerc i wneud ymholiadau gyda Mr J H Owens (cyn Glerc).

- Yswiriant – Pris ar gyfer 2016/2017 yn £938.06 (codiad o £46.20 ers y llynedd) from Zurich. Clerk awaiting response from AON. Cynigwyd gan WH ac eiliwyd gan AG y dylid, o ystyried y gwasanaeth ardder chog a gafwyd gan Zurich, adnewyddu'r yswiriant os nad yw AON dros £100 yn rhatach.
- Cae chwarae - Clerc yn adrodd fod Cyngor Sir Ynys Môn yn codi oddeutu £70.00 am ddal tyrchod daear. Cynigwyd gan AG ac eiliwyd gan RS fod y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir fwrw ymlaen a'r gwaith o ystyried y goblygiadau iechyd a diogelwch.
- Llifogydd - Cyng. Ann Griffiths i wneud ymholiadau ynglŷn ag arolwg camera cylch cyfyng o'r draen. Angen hysbysu Dŵr Cymru os yw'r broblem yn parhau.

3. Cyfrifon 2015/16

Clerc yn rhannu crynodeb o'r cyfrifon am y flwyddyn. Cynigwyd gan AG ac eiliwyd gan WH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn ail-benodi Mr J D Roberts fel Archwilydd Mewnol ar gyfer y flwyddyn 2015 - 16. Y llyfrau i'w cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol ar 8/6/2016. Cynigwyd gan AG ac eiliwyd gan RS fod y Cyngor Cymuned yn cymeradwyo'r cyfrifon cyn eu cyflwyno am archwiliad mewnol.

4. Ceisiadau Cynllunio

13 Maes Llewelyn, Aberffraw – Addasu ac ehangu.

AG yn datgan diddordeb gan ei fod yn berchen ar yr eiddo drws nesaf. Dim pryderon ynglŷn â'r cais. Cytunwyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol.

5. Gohebiaeth

- BDA - Gwybodaeth ynglŷn ag Archwiliad Allanol 2015/16
- Ystâd Bodorgan- Anfonebau - Rhandiroedd a Safle Picnic
- Un Llais Cymru – gwybodaeth am hyfforddiant
- Cyngor Sir Ynys Môn - Blaenraglen pwyllgorau
- 14 Bro Aberffraw – Crynodeb o'r cyfarfodydd a'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan y panel
- Anglesey County Council – Town and Community Council Liaison Meeting - Agenda
- MGCS - Anfonebau torri glaswellt. Clerc wedi ei hawdurdodi i'w talu.

6. Unrhyw Fater Arall

- Cae chwarae - torri glaswellt- Cwyn gan Mr J Andrews ynglŷn â safon y torri ar y cae chwarae. KW i drafod gyda Mr Andrews.

7. Cyllid

Taliadau:

30/04/2016	MGCS	Torri glaswellt	560.00
10/05/2016	M Roberts	Gosod Boiler	2,877.00
10/05/2016	Mr J D Roberts	Archwiliad Mewnol 2014/15	65.00
10/05/2016	Menna Evans	Costau'r Clerc 2015/16	175.28
20/05/2016	MGCS	Torri glaswellt	440.00

Derbyniadau:

30/04/2016	C S Ynys Môn	Priseb	2333.34
15/05/2016	Preswylfa Cyf	Y Fynwent	60.00

8. Lotri - L05
- | | | | |
|-----------------|----|------------|--------|
| 1 ^{af} | 45 | Mrs D Owen | £25.00 |
| 2 ^{il} | 50 | H Graham | £10.00 |



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 ym nos Fercher 20^{fed} o Orffennaf 2016

Presennol. *C G Topps (Cad), K Woods, J H Williams, R Hussey, R B Owen, R Stallwood, Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau. *M T Smithurst, D Nash, A Gilmour, W Hughes, R F Owen, Cyng A Griffith*

1. Cofnodion

Cafwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15/06/2016 yn gywir ar sail yr adroddiad a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. RBO yn cynnig, eilwyd gan JHW

2. Materion yn codi

- Safle we – Clerc i gadarnhau fod y cofnodion wedi eu cynnwys ar y wefan cyn gwneud taliad i Anglesey Computer Solutions.
- Lleoliad ar gyfer offer achub bywyd – ger y giat mochyn
Offer wedi ei osod.
- Meinciau – Ward Llangwyfan.
Ystad Bodorgan wedi rhoi caniatad. Meinciau wedi eu gosod. Adroddwyd fod Trac Môn yn bwriadu torri glasswellt ar ddwy ochr croesffordd Camp Ty Croes. Croesawyd hyn gan fod pryderon wedi eu mynegu yn y gorffennol ynglyn â gordyfiant yn rhwystro gyrrwyr rhag gweld.
- Neuadd Glannau Ffraw
Mr George Meyrick ar gael tua at ddiwedd mis Awst. Clerc i gysylltu â'r aelodau unwaith y bydd y dyddiad wedi ei gadarnhau.
- Llys Llewelyn
Adroddiadau fod dau ddarpar brynwr i'r safle. Deallir nad yw Agoriad wedi llwyddo i ddod i gytundeb gyda Menter Mon mewn perthynas â chymryd y safle drosodd yn gyfan gwbl. Pryderon ynglyn ag adroddiadau fod Menter Mon wedi gosod terfyn amser o 24 awr ar ddarpar brynwr a hynny yn groes i'r rheolau perthnasol. Clerc i gysylltu â Menter Môn ar frys i drefnu cyfarfod. KW yn datgan diddordeb gan ei fod yn gyfaill i un o'r darpar brynwyr.
- Croesffordd Dothan– Arwyddbost
JHW i brynu paent ar gyfer y blwch ffôn – i'w ad-dalu gan y Cyngor Cymuned. JHW i gwblhau'r gwaith pan fydd y dywydd yn caniatáu. KW yn adrodd fod Coleg Menai wedi cytuno i atgyweirio'r arwyddbost.
- Goleuni Stryd
Cafwyd adroddiad fod lamp 1 a 2 Y Fron ymlaen drwy'r dydd. Cleri i gysylltu â'r Cyngor Sir.
- Ffordd Trefri – Ystad Bodorgan yn ystyried opsiynau megis gwella'r maes parcio ger yr hen bont neu gyflogi warden i gadw golwg ar barcio anawdurdodedig.
- Aberffraw mewn blodau - RS i ddarparu costau ar gyfer planhigion a chafnau. RS i dderbyn ad-daliad am gostau mewn perthynas â'r cynllun.
- Y Fynwent – Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r tir ychwanegol.
- Torri glaswellt – WH yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion ynglyn â safon y torri glaswellt ger Bragdy gyda glaswellt wedi ei dorri wedi ei adael ar ochr y ffordd. Pryderon hefyd ynglyn â gordyfiant llwyni ger Llys Llewelyn yn creu rhwyst ar y palmant. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.
- Barclodiad y Gawres – Ebost wedi ei derbyn gan Swyddog Mynediad i'r Arfordir yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwella'r llwybr yn y dyfodol agos.
- Car wedi ei adael yn Mhorth Cwyfan – Clerc yn cadarnhau nad yw'r car wedi ei symud a'i bod wedi tynnu sylw adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor Sir ato.
- Rhandiroedd – Pryderon ynglyn â'r ffosydd wedi cau ar randir rhif 24 yn creu problem o lifogydd ar randiroedd cyfagos. Pryderon hefyd ynglyn a deunydd trin y lon yn y ffynnon. Cytunwyd y byddai angen peiriant i glirio'r ffynnon. KW i wneud ymholiadau gyda Mr Christopher Jones.

3. Ceisiadau Cynllunio

Ystad Bodorgan – Gosod Peiriannau talu am barcio ym Mhorth Trecastell a Phorth Nobla:

Clerk confirmed that the following observations had been made on behalf of the Community Council

- Cyngor Cymuned Aberffraw o blaid cyfyngiadau i rwystro parcio anawdurdodedig
- Y Cyngor Cymuned yn pryderu ynglyn â'r posibilrwydd y bydd ymwelwyr â'r traeth yn gadael eu ceir ar ochr y ffordd yn hytrach na thalu am barcio.
- Clerc i grybwyll fod yr A4080 yn ffordd brysur yn arbennig felly dros yr haf gyda defnydd sylweddol o ran ymwelwyr a thraffig amaethyddol.
- Cyngor Cymuned Aberffraw o'r farn y dylid ymgynghori gyda'r Adran Briffyrdd

Clerc yn adrodd ei bod wedi trafod y mater gyda Swyddog Cynllunio'r ardal. Eglurodd fod y cais mewn perthynas â lleoli'r peiriannau talu am barcio yn unig yn hytrach na'r goblygiadau posib yn deillio o godi tal am barcio.

4. Adolygu'r Gyllideb – Chwarter 1

Clerc wedi darparu taflen ar gyfer y cyfnod Ebrill – Mehefin 2016. Cynigwyd gan RH ac eilwyd gan KW fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r adolygiad.

5. Sedd Wag

Dim ymateb i'r rhybudd cyntaf. Cyngor Sir Ynys Môn i baratoi Rhybudd Cyf-ethol.

6. Gohebiaeth

- Un Llais Cymru – gwybodaeth ynglyn â hyfforddiant
- Cyngor Sir Ynys Môn– Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned– wedi ei basio i CGT
- Cyngor Sir Ynys Môn– ebst wedi ei derbyn gan Swyddog Tai yn gofyn i'r Cyngor Cymuned dorri'r gordyfiant ar i tir rhwng y ffens a'r llwybr y tu ôl i dai Maes Llewelyn. Clerc i ymateb drwy ddweud mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw'r tir a'u bod wedi cynnal a chadw'r llecyn yn daclun yn y gorffennol.
- Cyngor Sir Ynys Môn– Mynediad at y traeth ger yr hen bont – ebst wedi ei derbyn gan Swyddog Mynediad yr Arfordir yn hysbysu'r Cyngor Cymuned eu bod yn bwriadu gwneud y gwaith ym mis Medi / Hydref.

7. UFA

- Fflatiau Maes Llewelyn- Cyng. P Rogers yn adrodd fod pryderon yn parhau ynglyn â chyflwr difrifol y fflatiau. Cyng. Rogers yn adrodd ei fod wedi ei hysbysu nad oedd y swyddogion a fynychodd cyfarfod Mawrth 2016 y Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw gwynion. CGT yn egluro fod y Cyngor Cymuned wedi ei gwneud yn eglur fod nifer o faterion yn destun pryder. Clerc i ddarparu copi o lythyr anfonwyd at Dr Gwynne Jones yn mynegi pryderon y Cyngor Cymuned.
- Croesffordd Dothan - RH yn mynegi pryderon fod JHW yn torri'r glaswellt yn wirfoddol. Awgrymwyd It was suggested that the Community Council should ask MGCS for a quotation. KW i drafod gyda Mr Dylan Evans.

8. Cyllid

Taliadau:

30/06/2016	M Evans	Cyflog y Clerc – Ebr-Meh	666.96
30/06/2016	Sioe Aberffraw	Rhodd	100.00
30/06/2016	Mon Grass cutting Services	Torri glaswellt	440.00

Receipts:

17/06/2016	J H Owens	Lotri'r fynwent	400.00
13/07/2016	Preswylfa	Cemetery	195.00
13/07/2016	Preswylfa	Cemetery	30.00

9. Lottery - L07
- | | | | |
|-----------------|-----|------------------------|--------|
| 1 ^{af} | 142 | E Miles, Gaerwen Uchaf | £25.00 |
| 2 ^{il} | 67 | D Pollitt | £10.00 |



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh nos Fercher y 15fed o Fehefin 2016

Presennol.

C G Topps (Cadeirydd), K Woods, J H Williams, R Hussey, W Hughes, A Gilmour, R F Owen, Cyng P Rogers

Ymddiheuriadau.

M T Smithurst, D Nash, R B Owen, R Stallwood, Cyng A Griffith

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18/05/2016 eu derbyn ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. WH yn cynnig, eiliwyd gan AG.

2. Materion yn codi

- Safle We - Mr Summers yn gweithio ar y safle we. RS wedi cyflenwi'r enwau defnyddwyr a'r cyfrineiriau. Clerc wedi darparu rhestr o'r aelodau a chofnodion.
- Lleoliad ar gyfer offer achub bywyd
CGT wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Morwrol.
- Meinciau – Ward Llangwyfan.
RFO i drefnu cyfarfod â Mr H R Hughes i drafod y lleoliadau dan sylw.
- Neuadd Glannau Ffraw
Trefniadau i'w gwneud i Mr George Meyrick ymweld â'r Neuadd yn dilyn cyfraniad Ystâd Bodorgan tuag at y gwaith atgyweirio. Clerc i gysylltu â swyddfa Ystâd Bodorgan i drefnu dyddiad yn ystod yr wythnos sy'n arwain at Sioe Aberffraw. Awgrymwyd y dylid gwahodd Christine ac Alwena.
- Ysgol Gynradd Aberffraw
Dim gwybodaeth bellach ynglŷn â defnydd yr adeilad fodd bynnag nodwyd fod edrychiad yr adeilad wedi gwella'n sylweddol.
- Llys Llewelyn
Wedi dechrau ar y gwaith o drin y caffi a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau yn fuan. CGT i gyfarfod â Gerallt Llywelyn Jones (Menter Mon) and Arthur Beechy (Agoriad) to i drafod dyfodol y safle. CGT i adrodd yn ôl.
- Croesffordd Dothan - Arwyddbost
Dim ymateb pellach gan Goleg Menai. JHW yn adrodd fod ganddo baent yn barod ar gyfer y blwch ffon. JHW i gwblhau'r gwaith pan fydd y tywydd yn ffafriol.
- Goleuni Stryd
AG yn adrodd fod problem gyda pholyn rhif 2 ym Maes Llewelyn. Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.
- Lon Trefri - CGT yn adrodd ei fod wedi trafod y mater gyda Mr Tim Bowie sydd yn rhannu pryderon y Cyngor Cymuned. Ystâd Bodorgan yn ystyried opsiynau megis gwella'r maes parcio ger yr hen bont neu gyflogi warden i fonitro parcio anawdurdodedig.
- Aberffraw mewn Blodau -KW yn adrodd fod y mater hwn wedi ei drafod yng Nghyfarfod Cyswllt Trac Môn. Mr Richard Peacock wedi cytuno cyfrannu eto eleni tuag at gost cafnau blodau newydd. Angen cyflenwi manylion y cafnau a'r costau i'r Trac.
- Y Fynwent -Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'r tir ychwanegol.
- Cae Chwarae – Clerc yn adrodd fod y twrch daear wedi gadael y cae chwarae.
- Llifogydd – WH yn adrodd fod archwiliad gyda chamera wedi ei gwblhau ar y draen. Dim gwybodaeth bellach.

3. Cyfrifon ar gyfer 2015-2016

Clerc yn adrodd fod yn Archwilydd Mewnol yn fodlon gyda'r cyfrifon am y flwyddyn. Cynigwyd gan KW ac eiliwyd gan RH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2015/16. Y cyfrifon i'w cyflwyno ar gyfer archwiliad allanol erbyn 04/07/2016.

4. Ceisiadau Cynllunio

Gosod peiriannau talu am barcio ym Mhorth Trecastell a Thraeth Llydan - Cais gan Ystâd Bodorgan. Y Cyngor Cymuned yn ymwybodol o'r cynllun ers peth amser. Clerc i wneud y sylwadau canlynol:

- Cyngor Cymuned Aberffraw yn cefnogi rheolaeth i atal gwersylla anawdurdodedig
- Y Cyngor Cymuned yn bryderus iawn ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd ymwelwyr yn dewis gadael eu ceir ar ochr y ffordd yn hytrach na thalu am barcio.
- Clerc i grybwyll fod y ffordd yn brysur, yn arbennig felly yn yr haf gyda defnydd sylweddol gan ymwelwyr a pheiriannau amaethyddol.
- Cyngor Cymuned Aberffraw o'r farn y dylid ymgynghori Adran Briffyrdd y Cyngor Sir

Clerc i wneud cais am gyfarfod gyda'r Swyddog Cynllunio.

5. Gohebiaeth

- Un Llais Cymru - gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant
- Mrs Christine Davies - Llythyr ar ran Pwyllgor Sioe Aberffraw yn gwneud cais am gyfraniad tuag at fyrddau arddangos ar gyfer y sioe. KW yn adrodd fod cynlluniau ar y gweill i ail-osod y byrddau arddangos sydd ar wal y brif neuadd fel rhan o'r prosiect adnewyddu, fodd bynnag deallir fod y cais hwn yn cyfeirio at fyrddau a ddefnyddir yn benodol ar gyfer y sioe. CGT yn cynnig fod y Cyngor Cymuned yn cyfrannu £100. Eiliwyd gan RH. Clerc yn cadarnhau fod cyllid ar gael yn y gyllideb am y flwyddyn o dan y pennawd Cymuned.
- Pwyllgor Safonau - Côt Ymddygiad Enghreifftiol- Wedi ei adolygu. Cynigwyd gan KW ac eiliwyd gan AG bod Cyngor Cymuned Aberffraw yn derbyn y Côt Ymddygiad yn dilyn yr adolygiad.
- SLCC - Graddfa Gyflog Genedlaethol - graddfeydd cyflog newydd ar gyfer Clercod Cynghorau Cymuned.
- Cyngor Sir Ynys Môn - Gwasanaeth Sul y Cadeirydd - CGT i fynychu

6. UFA

- Torri glaswellt - WH yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion ynglŷn â safon y gwaith torri glaswellt ger Bragdy gyda glaswellt wedi ei dorri wedi ei adael ar ochr y ffordd. Clerc i gysylltu ag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn. Pryderon ynglŷn â llwyni'n gordyfu dros y palmant ger Llys Llewelyn. Clerc i gysylltu â Menter Môn.
- Barclodiad y Gawres - Gwaith sylweddol wedi ei wneud ar y safle gan Cadw fodd bynnag, pryderon yn parhau ynglŷn â mynediad gan nad oes cynlluniau i wella'r llwybr sydd yn arbennig o gul mewn rhannau. Clerc i gysylltu â Mr Arwel Evans, Swyddog Llwybrau.
- Rhandiroedd - Pryderon ynglŷn â'r ffynnon ger Rhandir rhif 6. Adroddwyd fod y ffynnon wedi ei chau gan ddefnydd trin y ffordd. Aelodau i ymweld â'r safle.
- £400 arian parod wedi ei gasglu drwy Lotri'r Fynwent wedi ei dderbyn gan Mr J H Owens.
- Car wedi ei adael – Adroddiad am gar wedi ei adael ger Eglwys Cwyfan ers rhai misoedd. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.
- Mr R Hughes – cais i newid tenantiaeth i enw ei fab, Mr D Hughes, gan ei fod yn ymddeol. Pawb yn cytuno.
- Pryderon ynglŷn â ffosydd wedi cau ar randir rhif 24, a hyn yn achosi llifogydd mewn caeau cyfagos. Clerc i gysylltu â thenant rhandir rhif 24.
- Cyfarfod Cyswllt Trac Môn - KW fod y Trac wedi gwneud cais cynllunio i barhau gyda'r drefn a welwyd yn ystod y blynnydoedd treialu. Bydd KW yn gallu darparu tocynnau mynediad yn siop y Wayside ar gyfer trigolion lleol sydd am ymweld â'r Trac. Y Trac yn awyddus i weithio gydag ysgolion lleol ac yn ystyried opsiynau megis "Race of Remembrance." KW yn adrodd fod Cyngor Cymuned Llanfaelog wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r traffig yn gadael y trac yn dilyn cyfarfodydd rasio.
- Sedd Wag - Ward Ddeheuol. Sedd Wag o ganlyniad i absenoldeb CB o 6 cyfarfod dilynol heb gynnig ymddiheuriadau nac eglurhad yn unol â'r rheolau statudol. Rhybuddion wedi eu derbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn. I'w harddangos ar yr hysbysfwrdd ac yn Swyddfa'r Post.

7. Cyllid

Taliadau:

27/05/2016	Zurich	Yswiriant	938.06
------------	--------	-----------	--------

Derbyniadau:

14/06/2016	Amrywiol	Rhenti Rhandiroedd	4187.00
14/06/2016	D G Owen	Rhent	405.00

8. Lotri - L06

1 ^{af} Rhif 36	Paul Hobbs	£25.00
2 ^{il} Rhif 58	Cwyfan Hughes	£10.00



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh nos Fercher yr 21ain o Fedi 2016

Presennol. *C G Topps (Cad), W Hughes, K Woods, J H Williams, R Hussey, M T Smithurst, R B Owen, R Stallwood, R F Owen, A Gilmour, Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau. *D Nash, Cyng A Griffith*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20/07/2016 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. RBO yn cynnig, eiliwyd gan JHW.

2. Materion yn codi

- Gwefan – Cofnodion wedi eu llwytho ar y wefan. Clerc yn cadarnhau fod taliad wedi ei wneud i Anglesey Computer Solutions. Taliad o £81.47 wedi ei wneud i RS am gostau mewn perthynas â datblygu'r wefan, prynu'r enw ac ati.
- Neuadd Glannau Ffraw
Mr George Meyrick yn gadael Bodorgan ddechrau mis Hydref. Clerc i awgrymu 5/10/2016 fel dyddiad posib ar gyfer cyfarfod ynglyn â'r rhodd tuag at y Neuadd. RBO yn adrodd fod aelodau Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn dymuno mynychu un o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned i drafod materion yn ymwneud â'r neuadd. CGT yn cadarnhau fod croeso iddynt fynychu'r cyfarfod nesaf. Clerc i gysylltu â Mrs Christine Davies i gadarnhau ac i wneud cais am gopi o gyfrifon diweddaraf y neuadd. Taliad o'r arian a dderbyniwyd gan Ystâd Bodorgan mewn perthynas â'r drws a'r ffenestri i'w wneud i bwyllgor y Neuadd. Pryderon wedi eu mynegi ynglyn â thorri'r glaswellt - MTS i drafod gyda'r ymgymwrwr.
- Llys Llewelyn
Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 25/07/2016 wëid eu cymeradwyo - cynigwyd gan RS eiliwyd gan RBO. Cafwyd adroddiad fod y gwerthiant yn mynd yn ei flaen yn araf. CGT yn adrodd ei fod yn deall fod y prynwr yn bwriadu parhau i redeg y safle fel busnes a'i fod â chynlluniau i wella'r golchdy a'r bythynnod gwyliau.
- Goleuni Stryd
Cafwyd adroddiadau fod gweithwyr y Cyngor Sir wedi eu gweld yn ymdrin â nifer o'r goleuadau o amgylch y pentref.
- Lon Trefri - Ystâd Bodorgan yn ystyried opsiynau megis gwella'r meysydd parcio neu gyflogi warden i fonitro'r parcio anawdurdodedig.
- Barclodiad y Gawres - E-bost wedi ei derbyn gan Swyddog Llwybr yr Arfordir yn cadarnhau fod Cyngor Sir ynys Môn yn bwriadu trin y llwybr yn y dyfodol agos. KW yn adrodd eu bod wedi cynnal asesiad risg ac wedi dod i'r canlyniad fod y llwybr wedi ei erydu gan lifiant dwr. KW hefyd yn adrodd fod Cadw wedi gwella safle Barclodiad y Gawres.
- Aberffraw mewn blodau –RS i ddarparu rhestr o gostau ar gyfer cafnau a blodau. Ad-daliad i'w wneud i RS am gostau mewn perthynas â'r cynllun.
- Y fynwent – Clerc wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir. Disgwyl ymateb.
- Torri glaswellt - WH yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion ynglyn â safon torri'r glaswellt yn ardal Bragdy gyda'r glaswellt wedi ei dorri wedi ei adael ar ochr y ffordd. Pryderon hefyd ynglyn â llwyni ger Llys Llewelyn wedi côr dyfu dros y palmant. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.
- Car wedi ei adael – Cafwyd adroddiadau nad oedd y car wedi ei symud. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.
- Allotments - Clerc yn adrodd ei fod wedi cael trafodaeth gyda thenant rhandir rhif 24 mewn perthynas â'r ffosydd wedi cau. KW yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i Mr Christopher Jones edrych ar y gwaith fyddai angen i symud y gwastraff o'r ffynnon. Rhandir Rhif 4 i'w hysbysebu. Ceisiadau i'w hystyried yng nghyfarfod mis Hydref.
- Fflatiau Maes Llewelyn - Copi o lythyr anfonwyd at Dr Gwynne Jones ym mis Chwefror 2016 yn mynegi pryderon y Cyngor Cymuned wedi ei anfon at Cyng. P Rogers. Adroddwyd nad oedd y sefyllfa wedi gwella. Ymddengys nad yw'r Cyngor Sir yn gwerthfawrogi difrifoldeb y sefyllfa. Clerc i anfon llythyr pellach at Dr

Jones yn gofyn am gyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned unai ar y safle neu yn Swyddfa'r Cyngor yn Llangefni.

3. Ceisiadau Cynllunio

- Ty'n Buarth – Cais ar gyfer newid defnydd adeilad amaethyddol yn uned lletya – dim sylwadau.
 - Trac Môn - Cais i gadarnhau'r cyfyngiadau sŵn fel yr oeddent yn ystod y flwyddyn dreialu gyda rhai man newidiadau. Dim sylwadau mewn perthynas â'r newidiadau. RS yn adrodd fod rhai unigolion yn y pentref yn cwyno am sŵn y sustem gyfarch gyhoeddus. Deellir fod y sŵn wedi ei fonitro ar sail cyfartaledd dros gyfnod o awr. O ganlyniad gall y sŵn fod yn uchel iawn am gyfnod o amser os yn ddistaw dros weddill yr awr- gan ddod â'r cyfartaledd ar gyfer yr awr i lawr i gwrdd â'r gofynion. Adroddwyd y gall rhai o drigolion Aberffraw fod â diddordeb mewn ymuno â'r grŵp cyswllt. Cadeirydd yn awgrymu y gall y Cyngor Cymuned gyfethol cynrychiolydd i eistedd ar y pwyllgor - pawb yn cytuno.
 - Ystâd Bodorgan - Installation of Parking Meters at Borth Trecastell and Porth Nobla: Adroddwyd fod y cais wedi ei wrthod. Deellir fod nifer fechan o wrthwynebiadau wedi eu cyflwyno gan unigolion a Chyngor Cymuned Llanfaelog. Clerc yn cadarnhau ei bod wedi cyflwyno sylwadau ar ran Cyngor Cymuned Aberffraw ond nad oedd wedi gwrthwynebu gan ei bod yn eglur fod y cais yn cyfeirio at osod y peiriannau talu am barcio yn unig yn hytrach na goblygiadau posib yn deillio o godi tal am barcio. Deellir ei bod yn debygol y bydd Ystâd Bodorgan yn apelio'r penderfyniad.
4. **Sedd Wag** -Rhybudd Cyfethol wedi ei arddangos yn Swyddfa'r Post, ar hysbysfwrdd y pentref ac ar wefan y Cyngor Cymuned. Dyddiad cau - 30/09/2016.

5. Gohebiaeth

- Un Llais Cymru- gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant. KW ac RH â diddordeb yn y sesiwn "Ceisiadau am arian" yn Llangefni. Clerc i wneud ymholiadau.
- Mon Grass cutting Services - Anfonebau wedi eu hawdurdodi i'w talu. Clerc i ofyn am 2 doriad ychwanegol gan fod y glaswellt yn parhau i dyfu.
- Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned- i'w gynnal ar nos Iau 20/10/2016
- Cyngor Sir Ynys Môn Blaenraglen Gwaith- e-bost i'w anfon ymlaen i aelodau.
- Ystâd Bodorgan - Gwybodaeth ynglŷn ag olew palmwydd wedi ei olchi i'r lan yn Aberffraw - niweidiol i gwn.
- Yr Arolygaeth Gynllunio – gwybodaeth ynglŷn ag Ymgynghoriad Wylfa Newydd.
- Christine Bowler - Cynllun Llwybr Celf a Hamdden i'w ariannu gan Brosiect 14. Cynnig i osod paneli celf o flaen Neuadd Glannau Ffraw. Cais fod y Cyngor Cymuned yn talu 50% o gostau'r cais cynllunio. Cytunwyd fod angen rhagor o wybodaeth.
- Cyngor Sir Ynys Môn - Gwybodaeth ynglŷn â digwyddiad cymunedol i'w gynnal yn Ysgol Gynradd Niwbwrch ar 27/09/2016 o 4:00 - 7:00 y.h.. Bydd arddangosfa o gynlluniau'r ysgol newydd a chyfle i drafod yr argymhellion gyda Swyddogion o'r Awdurdod.

6. UFA

- Cludiant i'r ysgol - Cyng. P Rogers yn adrodd fod y Cyngor Sir yn disgwyl i blant Aberffraw, sydd wedi mynychu Ysgol Gynradd Bodorgan, dalu am gludiant i Ysgol Gyfun Llangefni. Mae'r Cyngor Sir yn datgan fod Aberffraw o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern ac nad yw plant sydd yn byw yn Aberffraw yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim i Llangefni. Mae Ysgol Gynradd Bodorgan fodd bynnag o fewn dalgylch Llangefni. Barnir fod hyn yn annheg gan fod rhieni Aberffraw, pan gaewyd ysgol y pentref, wedi cael cynnig anfon eu plant unai i Bencarnisiog neu Fodorgan.
- Cychod wedi eu gadael – Aber yr afon. Pryderon ynglŷn â 2 gwch o ran effaith weledol ar y tirllyn a pherygl i blant. Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Swyddog Morwrol.
- Spirit of 14 - Cyfarfod wedi ei fynychu gan KW. KW yn adrodd na fyddai'r panel yn cyfrannu tuag at brosiectau yn ymwneud â phlant Aberffraw gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn mynychu Ysgol Pencarnisiog. Yn anffodus, ystyrir fod Pencarnisiog yn rhy bell o ffiniau cynllun.
- Cyfrifon 2015-16 – Cyfarfod wedi ei gynnal ar 07/09/2016 i ail-gymeradwyo'r cyfrifon yn dilyn y newidiadau canlynol:
 - Angen cofnodi ffigwr ar y daflen Incwm a Gwariant i'r £1 agosaf

- Rhestr asedau i'w newid i gynnwys y boiler gwresogi a brynwyd ar gyfer y neuadd. Cyfanswm asedau yn codi o £36503 i £48233.

Cofnodion y cyfarfod wedi eu cymeradwyo - cynigwyd gan MTS, eiliwyd gan AG.

7. Cyllid

Taliadau:

12/08/2016	Anglesey Computer Solutions	Gwefan	590.00
12/08/2016	Mon Grass cutting Services	Torri glaswellt	440.00
13/09/2016	Mon Grass cutting Services	Torri glaswellt	400.00

Derbyniadau:

14/09/2016	Preswylfa	Y fynwent	45.00
20/09/2016	Preswylfa	Y fynwent	45.00

8. Lotri - L 09

1af	Mrs Shirley Davies, 11 Maes Llewelyn	£25.00
2il	Mr Eric Hobbs, 14 Maes Llewelyn	£10.00



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw ar nos Fercher y 19fed o Hydref, 2016

Presennol. *C G Topps (Cad), W Hughes, K Woods, J H Williams, R Hussey, M T Smithurst, R B Owen, R Stallwood, R F Owen, A Gilmour, Cllr P Rogers*

Ymddiheuriadau. *D Nash, Cyng A Griffith*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21/09/2016 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddisbarthwyd gyda'r Agenda. MTS yn cynnig, eilwyd gan AG.

2. Sedd Wag— Clerc yn adrodd mae un enw yn unig a roddwyd ymlaen ar gyfer y sedd wag ar y Ward Ddeheuol sef Mr J H Owens. Cynigwyd gan MTS a chytunodd bawb y dylid cyf-ethol Mr Owens fel aelod o Gyngor Cymuned Aberffraw
3. Neuadd Glannau Ffraw— CGT yn croesawu Mrs Sue Goodgrove, Mrs Linda Hughes, Mrs Alwena Williams a Miss Christine Hallsworth i'r cyfarfod a'u gwahodd i amlinellu eu pryderon. Pryderon canlyn ol wedi eu hamlimellu gan Miss Hallsworth:

- Dim gwaith papur na chyfarwyddiadau gyda'r sistem wresogi
- Dim rhif cyswllt mewn argyfwng
- KW only person currently able to top up the pellets – it was felt that this is not practical
- Angen llecyn arwahan i gadw'r tanwydd
- Angen mesurydd gwres er mwyn hawlio incwm RHI
- Angen "hopper" ar gyfer y tanwydd, fodd bynnag pryderon ynglyn a chryfder y to
- Dim dwr poeth yn y toiledau – angen hyn yn gyfreithol
- Dwr yn llifo o beipen uchben y brif fynedfa gan adael marc ar y paent
- Angen toiledau anabl

Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn paratoi rhestr o drefniadau mewn perthynas â'r sistem wresogi a darparu amserlen ar gyfer gweddill y gwaith. Y mater i'w gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Tachwedd.

4. Materion yn codi

- Gwefan - RS yn egluro fod y costau yn cynnwys talu i gwmni allanol am redeg y wefan.
- Neuadd Glannau Ffraw
MTS yn adrodd ei fod wedi trafod torri'r glaswellt gyda'r ymgwymerwr a'i fod yn ffyddiog fod y mater wedi ei ddatrus. Adroddwyd nad oedd yr ymgwymerwr yn gallu cael mynediad i'r safle o bryd i'w gilydd gan fod pobl yn gadael eu ceir yn y fynedfa. Cytunwyd fod hyn yn broblem gan y gall atal gwasanaethau brys rhag cael mynediad i'r neuadd mewn achos o argyfwng. Awgrymwyd y byddai paentio boc o linellau melyn yn y fynedfa yn datrus y broblem. Clerc i wneud cais i'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Mon. Ystyried gosod arwyddion Dim Parcio hefyd.
- Llys Llewelyn
CGT a Cyng P Rogers i fynychu cyfarfod pellach yn Llangefni i geisio canfod gwybodaeth ynglyn a dyfodol y safle.
- Goleuni Stryd – Dim problemau.
- Lon Trefri – Dim gwybodaeth bellach.
- Barclodiad y Gawres – Ebost wedi ei derbyn gan Swyddog Mynediad yr Arfordir yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn bwriadu trin y llwybr yn y dyfodol agos. Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda Arwel Evans, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus, Cyngor Sir Ynys Mon.
- Aberffraw mewn Blodau –RS a CGT i ystyried opsiynau.
- Y Fynwent –Clerc yn adrodd fod y Cyngor Sir wedi anfon cadarnhad o dderbyn y llythyr.
- Torri glaswellt – Ardan Bragdy – Clerc yn adrodd ei wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir yn datgan eu bod angen rhagor o fanylion ynglyn a lleoliad y broblem. WH yn rhoi rhagor o fanylion.
- Car wedi ei adael – Adroddwyd fod y car wedi ei symud.

- **Rhandiroedd** – Clerc yn adrodd ei bod wedi cael trafodaeth gyda thenant Rhandir rhif 24 mewn perthynas a'r ffosydd wedi cau. KW yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i Mr Christopher Jones edrych ar y gwaith i lanhau'r ffynnon
- **Fflatiau Maes Llewelyn**–Llythyr wedi ei anfon at Dr Gwynne Jones yn gofyn am gyfarfod unai ar y safle neu yn Swyddfa'r Cyngor.
- **Cludiant disgyblion i'r ysgol**– Cyng P Rogers yn adrodd fod y mater wedi ei ddatrus gyda'r plant dan sylw wedi derbyn cerdiau i deithio heb dalu.
- **Cychod wedi eu gadael**– Aber yr afon. Clerc wed ei chynghori gan y Swyddog Morwrol na ellir cymryd unrhyw gamau os yw'r cychod ynghlwm. Os nad ydynt wedi eu clymu yna mae cyfrifoldeb am eu symud yn ddibynnol are u lleoliad mewn perthynas a lefel y dwr. CGT i ymchwilio ac adrodd yn ol.
- **Cyfrifon 2015-16**– Cyfrifon terfynnol wedi eu dychwelyd gan yr Archwilwyr. Dim materion i'w hadrodd yn ol. Cynigwyd gan RBO ac eilwyd gan RH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn derbyn y cyfrifon wedi eu harchwilio.

5. **Ceisiadau Cynllunio**

- Cais Rhif. 10C127B – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu'r sied bresennol yn 14 Y Fron Aberffraw – dim sylwadau.
- Cais Rhif. 10C10C - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu'r golchdy yn Llys Llewelyn, Aberffraw - Y Cyngor Cymuned yn gefnogol o'r cais gyda'r ddealltwriaeth y bydd o gymorth i sicrhau swyddi ar y safle yn y dyfodol.

6. **Rhandiroedd**

2 gais wedi eu derbyn ar gyfer Rhandir Rhif 4. Tenantiaeth wedi ei rhoi i Mr Owen Hughes, Penhenllys ar yr amod ei fod yn rhoi'r gorau i denantiaeth Rhandir Rhif 21 ac arwyddo datganiad yn cadarnhau y bydd yn cau'r bwlch yn y terfyn rhwng Rhandiroedd 4 a 5 ar gais y Cyngor Cymuned.

7. **Gohebiaeth**

- Un Llais Cymru-gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant.
- Mon Grass cutting Services – Anfonebau wedi eu hawdurdodi i'w talu.
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd– Cynhadledd i'w chynnal ar 01/11/2016 yng Nghanolfan OptIC, Llanelwy.
- Tesco - Gwybodaeth ynglŷn â grantiau "Bags of Help". Clerc i wneud ymholiadau.
- BDO - Gwybodaeth ynglŷn ag archwiliad 2016/2017

8. **UFA**

- Torri gwrych – Ion y rhandiroedd. Clerc i wneud trefniadau gyda RPG.
- Llwybr y penrhyn. Adroddwyd fod yr eithin wedi ei dorri ond ddim yn ddigonol. Deallir fod y llwybr yn llai nag 1m o led a bod y toriadau wedi eu gadael ar y llwybr. Clerc i gysylltu â Swyddog Llwybr yr Arfordir.
- Torri glaswellt – Clerc yn adrodd ei bod wedi trefnu 2 doriad ychwanegol.
- Sul y Cofio– Gwasanaeth i'w gynnal ar 13/11/2016. JHW yn adrodd ei fod wedi trefnu fod rhywun yn bresennol i ganu corn yn ystod y gwasanaeth.

9. **Cyllid**

Taliadau:

21/09/2016	Mr R Stallwood	Gwefan	81.47
30/09/2016	M Evans (Clerc)	Cyflog Gorff – Medi	619.84
10/10/2016	Mon Grass cutting Services	Torri glaswellt	600.00
10/10/2016	Pwyllgor y Neuadd	Trosglwyddo cyllid	1723.20

Derbyniadau:

10. **Lotri- L10**

1af	Mrs J Hughes, Ty Hir (Mr W Hughes)	£25.00
2il	Megan Hughes	£10.00



Adroddiad ar gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h. nos Fercher yr 16eg o Dachwedd 2016

Presennol.

C G Topps (Cad), K Woods, J H Williams, R Hussey, M T Smithurst, R B Owen, R Stallwood, R F Owen, A Gilmour, J H Owens, Cyng P Rogers

Ymddiheuriadau:

D Nash, W Hughes

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19/10/2016 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddisbarthwyd gyda'r Agenda. KW yn cynnig, eiliwyd gan RBO.

2. Sedd Wag - Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr J H Owens fel aelod o Gyngor Cymuned Aberffraw yn cynrychioli'r Ward Ddeheuol. Arwyddodd Mr Owens ddatganiad derbyn swydd a derbyniodd gopi o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.

3. Neuadd Glannau Ffraw – Ymhellach i'r pryderon a godwyd yng nghyfarfod mis Hydref gan Mrs Sue Goodgrove, Mrs Linda Hughes, Mrs Alwena Williams and Miss Christine Hallsworth ymatebodd KW fel a ganlyn:

- Cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer y sistem wresogi wedi eu paratoi yn barod i'w harddangos yn y neuadd
- Yr ofalwraig wedi derbyn nifer o rifau ffôn cyswllt ar gyfer KW mewn achos o argyfwng
- Bydd yn rhaid rhedeg y sistem am gyfnod o amser er mwyn mesur y defnydd cyn archebu "hopper" ar gyfer y tanwydd
- Ni fyddai sied tu allan i gadw'r tanwydd yn addas oherwydd natur yr hinsawdd yn Aberffraw.
- Angen gosod y mesurydd gwres sy'n angenrheidiol ar gyfer incwm RHI unwaith y bydd yr asesiad wedi ei gwblhau.
- Dwr poeth yn y toiledau - KW i drafod opsiynau gyda'r plymwr. Gall gosod cynheswr dwr trydan fod yn fwy cost effeithiol.
- Dwr yn llifo o beipen gorlif ar du blaen y Neuadd gan niweidio'r arwyneb – KW wedi ymchwilio i'r mater ac wedi canfod fod y sistem yn gweithio'n gywir, fodd bynnag mae'n bosib ei fod wedi peidio gweithio am gyfnod yn y gorffennol. KW i gadw golwg ar y sefyllfa.
- Toiled anabl, goleuni newydd a phaentio i'w gwblhau yn y flwyddyn newydd. Anawsterau cael mynediad i'r Neuadd i fwrw ymlaen a'r gwaith oherwydd sesiynau dyddiol y Cylch Meithrin. Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at y Cylch Meithrin yn eu hysbysu na fydd y brif Neuadd ar gael am gyfnod o amser yn ystod y gwaith trin. Bydd yr Ystafell bwyllgor yng nghefn y Neuadd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod hwn.

Pryderon ynglŷn â'r drws yn cael ei adael ar agor yn ystod nosweithiau bingo gan adael i'r gwres ddianc o'r adeilad. Ystyried arwydd i wneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol.

Pryderon wedi eu datgan mewn perthynas ag anawsterau gyda'r drefn o logi'r Neuadd. Awgrymwyd y dylid cael ail sistem i'w defnyddio pan nad yw Alwena ar gael. KW yn adrodd fod Neuadd Rhosneigr yn defnyddio sistem o logi ystafelloedd drwy'r siop leol. MTS yn awgrymu y dylai Pwyllgor Rheoli'r Neuadd ystyried opsiynau.

4. Materion yn codi

- Gwefan - Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â rhai agweddau o'r wefan megis cysylltiadau i gynghorau cymuned eraill. Clerc hefyd i wneud ymholiadau ynglŷn â chyfeiriadau e-byst ar gyfer aelodau.
- Neuadd Glannau Ffraw
Clerc yn adrodd ei bod wedi anfon cais at Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn i baentio llinellau o flaen mynedfa'r Neuadd. Gohebiaeth wedi ei dderbyn gan yr adran briffyrdd yn datgan eu bod wedi trosglwyddo'r mater i'r adran drafndiaeth.
- Llys Llewelyn
CGT a Cyng. P Rogers yn adrodd fod y gwerthiant yn mynd yn ei flaen.

- Goleuni Stryd – Dim adroddiadau o broblemau.
- Trefri Road - CGT i fynychu cyfarfod yn swyddfa Ystâd Bodorgan ar ddydd Gwener 18/11/2016.
- Barclodiad y Gawres - E-bost wedi ei derbyn can Swyddog Mynediad i'r Arfordir yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn bwriadu trin y llwybr yn y dyfodol agos.. Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn.
- Y Fynwent – Llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn yn cynnig y tir am £1. JHO yn adrodd nad oedd angen prynu'r tir gan ei fod eisoes wedi ei dynodi yn dir mynwent. Clerc i wneud cais am gadarnhad gan y Cyngor Sir.
Torri glaswellt - Ardal Bragdy - Cyngor Sir Ynys Môn wedi derbyn manylion ynglŷn â lleoliad y broblem.
- Rhandiroedd - Clerc yn adrodd ei bod wedi cysylltu â thenant rhandir rhif 24 mewn perthynas â'r ffosydd wedi cau. KW yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i Mr Christopher Jones edrych ar y gwaith o symud deunydd gwastraff o'r ffynnon. KW i wneud ymholiadau gyda Mr Jones.
- Fflatiau Maes Llewelyn - Llythyr wedi ei anfon at Dr Gwynne Jones yn gofyn am gyfle i gyfarfod un ai ar y safle neu yn y swyddfa yn Llangefni - disgwyl ymateb. Clerc i wneud ymholiadau. Adroddwyd fod peth gwaith atgyweirio wedi ei wneud ar y llwybrau fodd bynnag mae pryderon yn parhau ynglŷn â chyflwr gwael y fflatiau.
- Cychod wedi eu gadael - CGT i edrych i'r mater ac adrodd yn ôl.
- Torri gwrych – lon y rhandiroedd. RPG i gwblhau'r gwaith.
- Llwybr y Penrhyn. - Swyddog llwybr yr arfordir wedi ei hysbysu fod y llwybr yn gulach na 1m mewn rhannau.
- Sul y Cofio – Gwasanaeth i'w gynnal ar 13/11/2016. Clerc i anfon llythyr o ddiolch i Mr Hazelaar am ganu'r corn.

5. Ceisiadau Cynllunio

Dim

6. Rhandiroedd

Clerc yn adrodd fod Mr Owen Hughes wedi datgan ei fod yn fodlon cau'r bwllch rhwng Rhandiroedd 4 a 5 ar gais y Cyngor Cymuned.

7. Gohebiaeth

- Cyngor Sir Ynys Môn - Etholiadau Cyngorau Tref a Chymuned 2017 a'r goblygiadau mewn perthynas â'r Preiseb.
- Un Llais Cymru - gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant.
- Ystâd Bodorgan- Anfoneb rhandiroedd
- Mon Grass cutting Services – Anfoneb.
- Fforwm mynediad Lleol - llythyr yn gwahodd y Cyngor Cymuned i enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y panel. CGT yn datgan na fyddai yn ceisio ail-enwebiad. JHO yn datgan fod ganddo ddi-ddordeb. Clerc i gyflwyno enw Mr Owens fel enwebiad Cyngor Cymuned Aberffraw.
- Rhwydwaith Ynni a'r Amgylchedd– Digwyddiad brechwast rhwydweithio 24/11/2016 yng Ngholeg Menai, Llangefni.
- Cyngor Sir Ynys Môn -mabwysiadu cod ymddygiad. Pob cyngor cymuned i osod rhybudd mewn papur newydd lleol yn cadarnhau fod y cod ymddygiad wedi ei ddiweddarau ac ar gael i'w archwilio. Clerc i wneud trefniadau fel bo'r angen.
- Cyngor Sir Ynys Môn - Fforwm Twristiaeth 2016. Gwahoddiad i gyfarfod i'w gynnal ar 01/12/2016 yn Neuadd y Dref Llangefni.
- Primary Care Supplies - Gwybodaeth ynghyn a “defibrillators” cymunedol. I'w ystyried fel rhan o gynllun adnewyddu'r neuadd.
- Cyngor Sir Ynys Môn - Gwybodaeth ynglŷn ag ymgynghoriad ynglŷn â chyllideb 2017/18. Dyddiad cau
- 16/12/2016

8. UFA

- KW yn adrodd ei fod wedi mynychu Ras Sul y Cofio yn Nhrac Môn. Roedd y digwyddiad yn un llwyddiannus iawn gyda'r beiciwr Olympaidd Syr Chris Hoy yn bresennol.
- AG yn adrodd fod y fynwent wedi ei gadael mewn cyflwr annerbyniol gan yr ymgymerwr yn dilyn yr angladd diwethaf gyda marciau ar y glaswellt a'r bed yn anwastad. JHO i edrych i'r mater. Clerc i gysylltu ar ymgymerwr.

9. Cyllid**Taliadau:**

19/10/2016	J H Williams	Paent ar gyfer y blwch ffon	21.26
13/11/2016	Mon Grass cutting Services	Torri glaswellt	160.00
10/10/2016	Pwyllgor y neuadd	Trosglwyddo cyllid	1723.20

Derbyniadau:

15/11/2016	Preswylfa Cyf	Agor bedd	60.00
15/11/2016	Preswylfa Cyf	Gosod carreg	45.00
15/11/2016	Rose & Thistle	Agor bedd	120.00

10. Lotri - L11

1af	44	Mr W Hughes, Ty Hir	£25.00
2il	126	Mrs Diane Owen	£10.00